**EDC-09-99(p2)**

**Saleem Kidwai**

**Ysgrifennydd Cyffredinol**

**Cymdeithas y Proffesiynolion Moslemaidd**

Rwyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd am fy ngwahodd i yma heddiw i fynegi'm barn ar gyfraniad y sector preifat i'r rhaglenni yn y ddogfen rhaglen Ewropeaidd.

Rwyf wedi'm calonogi a'm plesio gan gynigion y pwyllgor.

Rwyf yn gobeithio y gallwn ddysgu oddi wrth ein gilydd a chynnal ymagwedd ymrwymedig a chydlynol a fydd o fantais i bawb.

Rwyf yn pryderi nad oes digon o bwyslais yn cael ei roi ar Fentrau Bach a Chanolig, a'r rhain, yn fy marn i, yw asgwrn cefn pob economi a chymuned, ac felly rwyf am gyflwyno fy sylwadau gan gadw Mentrau Bach a Chanolig mewn cof.

Gellid ond cyflawni'r amcanion cyffredinol sy'n cael eu diffinio yn y ddogfen os yw'r sector preifat yn chwarae rôl allweddol wrth ei gweithredu a'i chydlynu, gyda'r bwriad o sianelu'r adnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon.

Gellir ond cyflawni'r amcanion os bydd y sector preifat yn ffynnu. Bydd yn rhaid sicrhau ymrwymiad llawn o du'r sector preifat, ynghyd â brwdfrydedd ac ymagwedd gadarnhaol, a gellir ond cael hynny pan fydd y sector preifat yn ffyddiog bod y rhaglen yn mynd i fod o fudd i'r sector a bod yr amcanion cyffredinol yn mynd i gael eu cyflawni drwy'r rhaglen, yn y pen draw.

Rhaid i'r manteision o gymryd rhan fod yn gwbl amlwg i bob ochr – nid yn unig i'r rheiny yn yr ardaloedd sy'n cael eu heffeithio. Byddai'r effeithiau ar gystadleuwyr yn ystyriaeth bwysig wrth i'r sector preifat benderfynu i ba raddau y maent am gyfrannu.

Dylid dangos i Fudiadau'r Sector Preifat beth yw manteision rhaglenni datblygu yn yr ardaloedd tlotaf a phwysigrwydd cynigion o'r fath i'r ardal, ond hefyd yr effaith ehangach ar yr ardal leol ac ar y cwmni unigol.

Dylai fod yn amlwg bod cynigion yn ddichonadwy – a'u bod yn mynd i fod yn llwyddiant yn hytrach nac yn wastraff arian. Byddai angen nodi pa grwpiau a sectorau sydd â diddordeb ac i ba raddau y mae'r gymuned leol yn benderfynol o sicrhau bod yr adfywiad yn llwyddiant.

Dylai’r bartneriaeth barhaus rhwng y Llywodraeth/y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Mudiadau’r Sector Preifat fod yn gyson er mwyn annog y sector preifat i gymryd rhan. Dylid hefyd cynnal cyfweliadau/adolygiadau cyson i asesu a monitro’r cynnydd.

Dylid cynnwys Mudiadau’r Sector Preifat yn uniongyrchol ac yn effeithiol drwy eu gwneud yn rhan o’r broses. Byddai’r bartneriaeth a nodir uchod yn gam tuag at gyflawni hyn. Gall y broceriaid rhwydwaith hefyd chwarae rhan bwysig yn yr ymarfer hwn.

Mae Cymru wedi cymryd camau breision o ran denu buddsoddiad o’r tu allan. Mae Cymru’n denu bedair gwaith yr hyn a ddisgwylir iddi ei ddenu ac mae ar frig tabl cynghrair y DU. Fodd bynnag, yr hyn yr ydym wedi methu â’i wneud yw darparu cwmnïau cyflenwi ar gyfer y corfforaethau mawr fel Sony, Valeo Wiper Systems, Lucas Car Braking Systems, etc. Mae rhan fwyaf y cwmnïau sy’n buddsoddi o’r tu allan yn cael 75% o’u cyflenwadau o’r tu allan i Gymru.

Felly, mae’n eithriadol o bwysig bod Mentrau Bach a Chanolig eu Maint yn cael eu datblygu a’u hannog ac mae hyn yn hanfodol o safbwynt y rhwydwaith byd-eang a’r amgylchedd cystadleuol sydd ohoni.

O ran argaeledd y grantiau, rwyf yn credu y dylwn ddysgu oddi wrth lwyddiant rhannau o Ewrop a’r byd yn gyffredinol, yn hytrach na threfnu bod grantiau ar gael yn gyffredinol ar gyfer unrhyw ddiwydiant yn y Gorllewin a’r Cymoedd.

Ceir mwy a mwy o dystiolaeth bod clystyru a rhwydweithio yn helpu Mentrau Bach a Chanolig i gystadlu a thyfu. Drwy weithio gyda’i gilydd, gall gwmnïau elwa o fanteision cydeffeithiolrwydd, a fydd yn eu galluogi i gynnig her i gystadleuwyr mwy a chael mynediad i farchnadoedd cenedlaethol a byd eang. Ymhlith yr enghraiffitiau gorau y mae Emilia-Romagna yn yr Eidal, Baden-Wurttemberg, yn yr Almaen, (yr Athro P. Cooke & K. Morgan) Sbaen, Denmarc, Brasil, India a Pacistan, sydd wedi elwa o froceriaid clystyru a rhwydweithio.

Grp o gwmnïau sydd wedi’u lleoli mewn un ardal ddaearyddol ac sy’n gweithio o fewn yr un sector yw clwstwr. Efallai bod y cwmnïau’n cydweithredu, neu efallai nad ydynt. Casgliad o gwmnïau sy’n cydweithio yw rhwydwaith, er nad ydynt o reidrwydd wedi’u lleoli yn yr un man. Gall y ddau fath o grp gynnig manteision cystadleuol i’r cwmnïau. (Dr. Khalid Nadvi. IDS)

Y mae dwy elfen i fanteision **‘cydeffeithiolrwydd’**

**Economïau allanol lleol** – manteision yw’r rhain, sy’n ganlyniad i’r ffaith bod cwmnïau wedi’u lleoli yn yr un ardal. Mae grwpiau o’r fath yn denu cyflenwyr lleol, gan roi gwell mynediad i bob cwmni i fewnbynnau a deunyddiau crai, a chan helpu i greu pwll o weithwyr medrus.

**Gweithredu ar y cyd** – mantais wrth i gwmnïau gydweithredu'n ymwybodol neu ddod at ei gilydd drwy gymdeithasau busnes a grwpiau eraill. Gall weithredu ar y cyd ddod â nifer o fanteision yn ei sgìl. Er enghraifft, gall cymdeithasau cynhyrchwyr helpu i gyflwyno marchnadoedd tramor newydd a chynyddu'r mynediad sydd gan gwmnïau bach i wasanaethau cymorth y llywodraeth.

Pan fydd rhywun yn cymharu profiadau mewn gwahanol wledydd a rhanbarthau, ymddengys bod tair ffactor sy'n hanfodol o ran llwyddiant y cynlluniau, a'r rheiny wedi'u hanelu at hyrwyddo twf Mentrau Bach a Chanolig.

**Canolbwyntio ar y cwsmer** – y camau mwyaf effeithiol yw'r rheiny sydd wedi helpu cwmnïau i ddysgu am eu cwsmeriaid, ac yna cyflwyno'r newidiadau a'r mentrau arloesol sydd eu hangen i fodloni gofynion y farchnad.

**Cydweithio** – mae cymorth o'r tu allan yn fwyaf effeithiol os yw wedi'i anelu at grwpiau o fentrau, yn hytrach na chwmnïau unigol, sy'n golygu gweithio gyda chymdeithasau busnes, grwpiau cynhyrchwyr, a chymdeithasau eraill ym myd diwydiant.

Mae dwy fantais i hyn – mae'n fwy cost-effeithiol na rhoi cymorth i fentrau unigol, ac mae'n helpu i ddatblygu perthynas adeiladol rhwng cwmnïau a chynyddu'r potensial ar gyfer dysgu oddi wrth ei gilydd.

**Cronni** – nid yw gwelliannau unwaith ac am byth yn ddigon; os yw cwmnïau i barhau'n gystadleuol mae angen iddynt fedru newid a datblygu mewn ymateb i amgylchiadau newydd y farchnad a chyfleoedd newydd. Dylid amcanu at helpu grwpiau o gwmnïau i feithrin y gallu hwn i newid, er mwyn sicrhau na fydd angen cymorth cyhoeddus yn y tymor hir.

Nid 'ateb cyflym' yw'r dull o gydweithio a ddisgrifir yma. Ond mae yn cynnig dewis addawol heblaw am y dulliau traddodiadol o helpu cwmnïau, ac fe yr pawb beth yw gwendidau'r dulliau hynny. Yn y gorffennol, y polisi yn gyffredinol oedd targedu cymorth ar gyfer mentrau unigol – fel rheol drwy gyfuniad o gynlluniau credyd, grantiau, cymorth technegol a help arall.

Y broblem yw bod y mentrau hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar gyflenwad, gan ganolbwyntio ar fewnbwn a chan anwybyddu'r cwestiwn hanfodol, sef pwy fydd yn prynu allbwn y cwmni.

Maen tramgwydd arall yw'r ffaith nad yw'r rhaglenni yn fynych yn gynaliadwy, gan fod y gost o ymwneud â nifer o gwmnïau bach yn uchel iawn, a bod y tebygrwydd o adennill cost sylweddol yn fach. Ar y gorau, mae'r rhaglenni'n cael effaith unwaith ac am byth ar berfformiad diwydiannau sydd wedi'u targedu, ac yn anfynych y byddant yn meithrin y gallu i helpu a gwella eu hunain.

Mae Cymru ar flaen y gad o ran y Diwydiannau Peirianneg ac Offer, y diwydiant cynhyrchu

Dodrefn, y Diwydiant Cydrannau Ceirl a'r Diwydiant Hamdden Electronig. Os datblygwn le ar eu cyfer hwy a gweithio ar gyfyngiadau'r diwydiannau hyn a defnyddio'r arian i ddileu'r cyfyngiadau hynny, gallwn fod yn arweinwyr yn y meysydd diwydiannol hyn.

O safbwynt y wybodaeth a'r cymorth technegol sydd ar y sector preifat eu hangen, byddem yn awgrymu y dylai'r ffurflenni fod mewn iaith syml sy'n hawdd ei deall a'i dilyn, neu y dylid cael cynghorwyr sy'n arbenigo mewn llenwi ffurflenni.

O'm profiad personol i, gallaf ddweud fod busnesau yn fynych yn awyddus i wneud cais, ond eu bod yn newid eu meddyliau ar ôl gweld faint o waith papur y mae'n ei olygu a'r costau y mae'n rhaid iddynt eu hysgwyddo. Un awgrym yw y gallai'r gronfa dalu'r costau cychwynnol, yn hytrach na'r busnes unigol.

Rwyf yn teimlo y bydd y cysylltiad â'r sector preifat yn fwy effeithiol drwy fanciau, ymgynghorwyr ariannol, y siambr fasnach a chanolwyr eraill, a hefyd drwy'r cyfryngau.

Rwyf yn sir y bydd y byd, mewn rhai blynyddoedd, yn cyfeirio at Gymru fel esiampl o lwyddiant ym maes dadeni diwydiannol.